Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,
Bridge Dental Care,
Trecelyn.

22 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am ragor o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost:**hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:**0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-6513-8


ⓗHawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 2

2. Cyd-destun ..... 3

3. Crynodeb ..... 4

4. Canfyddiadau ..... 5

   Ansawdd Profiad y Claf ..... 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ..... 7

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 12

5. Y Camau Nesaf ..... 14

6. Methodoleg ..... 15

   Atodiad A ..... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cyflawnwyd arolygiad gan AGIC oBridge Dental Care yn Llanover Buildings, Victoria Terrace, Trecelyn, NP11 4EXar 22March 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Bridge Dental Care yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Bridge Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Trecelyn, Caerffili, gyda rhai cleifion yn dod o Gasnewydd a Phontypridd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Practis cymysg yw Bridge Dental Care sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Mae orthodeintydd yn darparu gwasanaethau yn y practis un diwrnod yr wythnos.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, dau hylenydd, saith nyrs ddeintyddol, un derbynnydd a chydlynydd triniaeth. Ffurfir y tîm rheoli gan dri aelod o staff. Ar adeg ein harolygiad, roedd deintydd sylfaen a dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Bridge Dental Care yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn fawr eu hedmygedd tuag ato. Dyfarnwyd gwobr arfer dda Cymdeithas Ddeintyddol Prydain iddo yn ogystal â gwobr prentisiaeth cyflogydd bach y flwyddyn yn 2015.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda, ac i'w gweld yn lân ac yn daclus.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.
- Cynhaliwyd archwiliadau a chyfarfodydd staff yn rheolaidd a chawsant eu defnyddio i wella arferion.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella’r canlynol:

- Storio rhywfaint o'r cyfarpar deintyddol a chyffuriau brys.
- Argaeledd taflenni data COSHH ac asesiadau risg ar gyfer cemegion a ddefnyddir gan y practis.
- Faint o fanylder a gynhwysir yng nghofnodion cleifion yn ymwneud â sgrinio am ganser a chynllunio triniaeth.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion yn gadarnhaol dros ben. Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion yn rheolaidd, trwy arolygon cleifion, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth. Roedd man aros dymunol gydag ystod o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 30 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "*Lle hyfryd a thîm hyfryd o weithwyr proffesiynol*"
>
> *"Rwy'n hapus iawn â'r practis hwn.Maen nhw wastad yn fodlon helpu gydag unrhyw un o fy anghenion deintyddol yn ogystal ag anghenion deintyddol fy mhlant*."
>
> "*Dwi bob tro wedi fy nhrin yn dda iawn gan holl aelodau'r staff wrth ymweld â'r practis a dwi o'r farn bod y driniaeth dwi wedi ei derbyn o'r radd flaenaf"*
>
> *"Staff cyfeillgar iawn a phroffesiynol.Hynod lân"*
>
> *"Roeddwn yn go bryderus pan ddes i gyntaf i'r deintydd a chael tipyn o driniaeth wedi'i gwneud ond fe wnaeth y staff i gyd fy nghysuro  rhoi tawelwch meddwl i mi".*

Gofal gydag urddas

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a gawsent yn y practis ac i'r staff sicrhau eu bod yn teimlo bod croeso mawr iddynt. Gwelsom hefyd mor gynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ymagweddu tuag at y cleifion. Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i amddiffyn preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys lle i gleifion gynnal sgyrsiau preifat gyda staff, a system i amddiffyn cyfrinachedd wrth ddelio â negeseuon ffôn gan gleifion.

Gofal amserol

Ceisiodd y practis sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. O'r 30 holiadur a gwblhawyd, dim ond ychydig o'r cleifion oedd wedi nodi eu bod wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd ddiwrnod eu

hapwyntiad. Dywedodd dros dri chwarter y cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau gwaith. Gellid gweld y rhif cyswllt mewn argyfwng ar arwydd ar waelod y dreif ac roedd hefyd yn y daflen wybodaeth yn y dderbynfa. Roedd y rhif ffôn hefyd i'w gael ar wefan gynhwysfawr y practis yn ogystal ag yn neges ffôn y practis.

<u>Cadw’n iach</u>

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â'u triniaeth. Roedd un aelod o'r tîm yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn galluogi'r practis i roi cyfle i gleifion gyfathrebu yn Gymraeg os oeddent yn datgan eu bod am wneud hynny.

Roedd y dderbynfa a'r ddwy ystafell aros helaeth yn gyfryw fel ag i roi argraff gyntaf ddymunol. Roedd y waliau'n lliwgar ac roedd rhywfaint o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd gan y practis system dolen sain ar waith pe bai ei hangen ar gleifion ag anawsterau clywed arno. Roedd yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear ac roedd y mynedfeydd i'r drysau a'r coridorau yn ddigon llydan i gadeiriau olwynion. Roedd modd parcio'n lleol neu ar y safle.

Dywedodd y staff wrthym yr atgoffwyd cleifion i roi adborth ar lafar ynglŷn â'u safbwyntiau ar y gwasanaeth, pan oeddent yn mynychu'r practis. Cofnodwyd y rhain yng nghofnodion y cleifion. Adroddwyd y sylwadau hyn i gyfarfodydd tîm. Dywedwyd wrthym fod arolygon cleifion yn cael eu cynnal a gwelsom fod y data wedi'i adolygu. Dangosodd hyn fod systemau ar waith er mwyn galluogi cleifion i roi adborth parhaus i'r practis.

Pan ofynnwyd i'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron sut oedd gwneud cwyn ynglŷn â'u gofal neu eu triniaeth, gwnaeth dwy ran o dair ohonynt nodi eu bod yn gwybod sut i wneud, a'u bod wedi gweld yr hysbysiad yn yr ystafell aros. Roedd poster 'Gweithio i Wella' (a oedd yn disgrifio'r weithdrefn ar gyfer pryderon ynglŷn â gwasanaethau GIG yng Nghymru) i'w weld ar wal yr ystafell aros. Canfuom fod taflenni ategol i'w gweld a oedd yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol. Canfuom fod amserlenni perthnasol a chyfeiriadau sefydliadau y gellid cysylltu â nhw mewn achos o brys (cwyn) wedi eu harddangos ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat fel ei gilydd.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r broses ddadheintio yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.**

Gofal diogel

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd ffres, glân a dymunol.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Canfuom fod pob ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus ac wedi'u cynnal a'u cadw yn dda.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn drefnus er mwyn helpu'r nyrsys i weithio'n effeithlon. Canfuom fod rholiau a phelenni gwlân cotwm wedi eu storio mewn dosbarthwr ar yr arwyneb gwaith a bod driliau danheddog (offerynnau a ddefnyddir i dorri meinweoedd caled, dannedd ac esgyrn) wedi'u sterileiddio wedi eu storio mewn stand ar yr arwynebau gwaith. Gall y trefniant hwn gynyddu'r tebygolrwydd o groes-heintio.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid lapio driliau danheddog wedi'u sterileiddio a dylid storio rholiau gwlân cotwm glân yn eu pecynnau gwreiddiol er mwyn lleihau croes-heintio.***

Pan brynir offer deintyddol newydd, gan gynnwys driliau danheddog, dylai'r practis ystyried a fyddai dyfeisiau untro yn bodloni'r gofynion.

Gwnaethom arolygu offer sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth. Gwelwyd tystysgrifau gwiriadau diogelwch. Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl offer trydanol ym mis Ionawr 2016, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd offer diogelwch tân ar gael a chafodd ei wirio ym mis Hydref 2015. Mae'r staff yn cwblhau driliau diogelwch tân bob mis, ac maent yn chwarae rolau i hwyluso eu dysgu. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd mewn argyfwng.

Roedd y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei harddangos y tu ôl i'r dderbynfa ac roedd tystysgrif diogelwch nwy gyfredol ar gael. Roedd poster iechyd a diogelwch i'w gweld ond argymhellwyd y dylai'r practis ei harddangos mewn man amlycach.

Roedd ffeil ar gael oedd yn cynnwys dalenni gwybodaeth yn ymwneud â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Cynhwyswyd ynddi asesiadau risg cyffredinol, yn dangos y mesurau rheoli presennol sydd ar waith i atal anafiadau, ar gyfer rhai ond nid pob un o'r cemegion a gedwir ar y safle. Roedd y cemegion i gyd yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau dan glo.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid cwblhau dalenni gwybodaeth ac asesiadau risg ar gyfer yr holl gemegion a gedwir yn y safle.***

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfoes ar gyfer yr holl ddeintyddion a hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer y nyrsys deintyddol.

Roedd y trefniadau ar gyfer diogelu cleifion a staff pan fo'r peiriannau pelydr-X ac OPG[1] yn cael eu defnyddio, yn dderbyniol. Gwelwyd hefyd y llythyr hysbysu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch diogelwch radiograffeg. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau diogelwch, o waith cynnal a chadw cyfarpar, ac o gynnal profion. Gwelwyd hefyd reolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn y ffeil diogelwch ymbelydredd ac ar y wal yn yr ystafell driniaeth. Cynhwyswyd diagram yn nodi'r man rheoledig yn y ffeil hefyd.

Cadarnhaodd y staff hefyd fod ansawdd y pelydrau-X a gymerwyd yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd. Gwelsom hefyd fod y practis wedi cyflawni archwiliadau pelydr-X deintyddol misol. Cofnodwyd hefyd y canlyniadau ac unrhyw welliannau oedd eu hangen.

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod y tîm wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer perfformio dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) ac roedd dau swyddog cymorth cyntaf penodedig wedi cael hyfforddiant cyfoes. Roedd polisi dadebru a oedd yn benodol i'r practis yn rhestru rolau'r staff mewn achos brys (llewygu).

---

[1] Mae peiriant OPG yn tynnu pelydr-X panoramig o'r ên uchaf ac isaf, gan roi golwg ddau-ddimensiwn o glust i glust.

Storiwyd y cyfarpar dadebru a'r cyffuriau brys yn ddiogel mewn modd a oedd yn golygu eu bod ar gael yn rhwydd i staff mewn achos brys. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn wythnosol. Storiwyd rhai cyffuriau brys yn oergell y staff ynghyd â bwyd ac rydym wedi gofyn iddynt adolygu'r trefniant hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylid storio cyffuriau brys yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ac os nodir y dylid eu cadw mewn oergell, rhaid yw eu cadw ar wahân i fwyd er mwyn lleihau croes-heintio.***

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a gweithdrefnau a oedd wedi'u hen sefydlu ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff.

Mae gan y practis ardal neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd yr ardal i'w gweld yn lân, ac yn gymen. Gwelsom fod sinc benodol i olchi dwylo. Roedd system effeithiol ar waith ar gyfer symud offer deintyddol wedi'u defnyddio o'r ystafell driniaeth i'r ystafell ddadheintio, a hynny mewn cynwysyddion wedi'u selio. Unwaith i'r offer deintyddol gael ei lanhau a'i sterileiddio (dadheintio), cafodd ei becynnu a'i labelu a'i ddyddio'n glir cyn ei ddychwelyd i'r ystafelloedd triniaeth i'w storio. Roedd y brif nyrs ddeintyddol yn wybodus iawn ac yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn gan yr holl nyrsys deintyddol. Derbyniodd pob nyrs ddeintyddol hyfforddiant rheoli heintiau. Derbyniodd staff newydd hyfforddiant mewnol yn y broses ddadheintio.

Dangosodd y practis i ni dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau Cymdeithas Atal Heintiau (IPS) wedi ei gyflawni ym mis Chwefror 2016. Mae hyn yn cydymffurfio â'r canllawiau sy'n berthnasol yn Lloegr. Roedd cynllun gweithredu manwl ynghlwm i ddangos pa gamau gweithredu a nodwyd a phryd y byddent yn cael eu rhoi ar waith. Roedd y practis wedi cwblhau dull archwilio Deoniaeth Cymru, sy'n cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[2] ym mis Medi 2014. O ystyried bod y practis yn gweithredu yng Nghymru, fe'i cynghorwyd i ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer archwiliadau.

---

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom fod yr holl offer glanhau a sterileiddio wedi ei wasanaethu'n gyson. Dywedwyd wrthym adeg ein harolygiad nad oedd un o'r awtoclafau[3] yn cael ei ddefnyddio ac yr oedd i'w newid ymhen mis o ddiwedd ei brydles. Roedd gwiriadau dechrau'r dydd ar yr awtoclaf arall yn cael eu cwblhau'n gywir.

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system effeithiol ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol a diogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff (clinigol) peryglus a gwastraff (domestig) nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, yn unol â'r dull cywir o'i waredu. Storiwyd a chlowyd y rhain mewn man arall y tu allan i'r adeilad, cyn cael eu casglu.

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gwelsom eu tystysgrifau hyfforddi.

Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau gan y practis, gan gynnwys rheoli heintiau, archwiliadau radiograffeg, cadw cofnodion, ac amseroedd aros i gleifion. Gwelsom fod yr archwiliadau hyn wedi eu trafod mewn cyfarfodydd tîm.

Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion cleifion o safon uchel yn gyffredinol, a ddangosodd fod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ar gyfer yr holl ddeintyddion. Ar y cyfan, canfuom fod cofnodion gofal y cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â dewisiadau triniaethau. Cadarnhawyd hyn gan ymatebion holiaduron cleifion. Roedd tystiolaeth hefyd bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion ynghylch cynllunio triniaeth, ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y nodiadau. Gwelsom dystiolaeth fod deintyddion wedi cydlofnodi'r hanesion meddygol a oedd yn dangos bod deintyddion wedi eu gwirio.  Roedd y practis wedi penderfynu anfon yr holiaduron meddygol at

[3] Siambr bwysedd yw awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o wasgedd uchel.

gleifion yn y post cyn iddynt ddod i'r ystafell driniaeth. Canfuwyd bod y cleifion yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn ac iddo dawelu eu meddyliau wrth fynd am driniaeth.

Roedd yn amlwg bod y gwaith ysgrifennu nodiadau clinigol yn ardderchog ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd rhai cofnodion yn dangos tystiolaeth o sgrinio am ganser neu gofnodi'r rhannau o'r geg oedd wedi eu harchwilio. Nid oedd sgoriau Archwiliad Periodontol Sylfaenol o 3 neu 4 yn cael eu dilyn gan siartio poced chwe phwynt fel yr argymhellir gan Gymdeithas Periodontoleg Prydain.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

**Rhaid i nodiadau clinigol gynnwys tystiolaeth o**

- **Sgrinio ar gyfer canser**
- **Mwy o fanylder ynghylch cynllunio triniaeth**
- **Cofnodi'r rhannau o'r geg y mae'n rhaid eu harchwilio. (Dylai siartio poced 6 phwynt ddilyn sgoriau BPE o 3 neu 4)**

Roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-X ar adegau priodol. Roedd ansawdd y sganiau pelydr-X yn cael ei fonitro ac roedd pob sgan pelydr-X yn cael ei gadw ar ffurf electronig. Cofnodwyd galwadau'n ôl (yr amser hyd nes y gelwir claf yn ôl ar gyfer triniaeth) yn unol â chanllawiau Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Roedd y deintyddion yn dueddol o ddefnyddio pelydr-X panoramig (sy'n dangos yr holl ddannedd) pan allai pelydr brathiad (sy'n dangos y dannedd yn un rhan o'r geg) fod wedi bod yn fwy priodol. Felly, dylai'r deintyddion adolygu'r arfer hwn gan ystyried canllawiau perthnasol.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i gadw copi wrth gefn o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau dilyniant o ran gofal. Cadwyd y cofnodion papur yn ddiogel mewn man dan glo.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol iawn yn y practis.Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Cyfrifoldeb tîm o dri aelod o staff oedd rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd pob un yn hyderus yn ei rôl ac roedd yn amlwg eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r gwaith o gynnal y practis yn effeithiol.

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau. Roeddent yn drylwyr iawn. Rhoddwyd mynediad at y polisïau a'r gweithdrefnau i bob aelod o staff a gwelsom eu bod wedi'u llofnodi gan staff i ddangos eu bod wedi'u darllen.

Cwblhawyd arfarniadau blynyddol ac adolygiadau perfformiad a gosodwyd nodau. Gwelsom dystiolaeth o werthusiadau yn mynd yn ôl sawl blwyddyn yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd gofnodion cyfarfodydd tîm misol. Dangosodd y cofnodion dystiolaeth o hyfforddiant tîm yn y cyfarfodydd gyda deilliannau dysgu. Defnyddiwyd archwiliadau hefyd gyda'r bwriad o wella arferion. Neilltuwyd tipyn o amser ar gyfer tiwtora a mentora'r deintydd sylfaen.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Er bod copïau o dystysgrifau cofrestru AGIC y deintyddion i'w gweld yn yr ystafelloedd triniaeth, gwnaethom gynghori y dylai'r copïau gwreiddiol hefyd gael eu harddangos er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Cwblhawyd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y deintyddion. Cadarnhaodd y practis fod y rhain ar gael ar gyfer yr holl aelodau eraill o staff yn ogystal. Ni chasglwyd geirdaon cyn cyflogaeth cyn i'r staff ddechrau gweithio. Dywedodd staff wrthym fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yn y practis ers sawl blwyddyn neu'n hysbys i staff cyn iddynt gael eu cyflogi ac felly fe'u hystyriwyd yn gymwys i weithio yn y practis. Dylai'r practis gofnodi'r penderfyniad hwn ar ffeiliau staff unigol at ddibenion archwiliadau. Yn ogystal â hyn dylai'r practis gael gwiriadau recriwtio priodol wrth gyflogi staff yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylai'r practis drefnu cael gwiriadau recriwtio priodol wrth gyflogi staff yn y dyfodol.***

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Cynghorwyd y practis i gynnal asesiadau risg unigol ar gyfer aelodau o staff y gwyddys nad oed ganddynt imiwnedd digonol. Diben hyn yw eu bod yn ymwybodol o’r hyn y dylid ei wneud pe baent yn cael anaf tra’n defnyddio offer miniog wedi'i halogi gan waed.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau sydd ar waith. Cawsom eu bod yn dra thrylwyr a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu arferion gwirioneddol.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Bridge Dental Care yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi gwybod i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

4 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

5 http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Bridge Dental Care, Trecelyn

## Dyddiad yr arolygiad: 22 Mawrth 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Dim angen cynllun gwella. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 7 | Dylid lapio driliau danheddog wedi'u sterileiddio yn eu pecynnau gwreiddiol i leihau achosion o groes-hentio.<br>[WHTM 01-05 paragraffau 4.27-4.28] | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4 | Rholiau gwlân cotwm bellach wedi eu cadw yn eu pecynnau gwreiddiol. Driliau danheddog wedi eu storio a'u pecynnu. | Leonard Smart | 22.03.16 |
| 8 | Dylid cwblhau dalen wybodaeth ac | Safonau | Diweddariad ffeil COSHH ar gyfer | Leonard | 22.06.16 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | asesiadau risg ar gyfer yr holl gemegion a gedwir ar y safle. | Iechyd a Gofal<br>Safon 2.1 | cemegion unigol. | Smart | |
| 9 | Dylid storio cyffuriau brys yn unol â chyfarwyddyd y gwneuthurwr ac os nodir bod rhaid eu cadw mewn oergell, dylid eu cadw ar wahân i fwyd er mwyn lleihau croes-heintio. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.6 | Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys | Leonard Smart | 22.06.16 |
| 11 | Rhaid i nodiadau clinigol gynnwys tystiolaeth o<br>• Sgrinio ar gyfer canser<br>• Gwybodaeth fanylach am gynllunio triniaeth.<br>• Cofnodi'r rhannau o'r geg y mae'n rhaid eu harchwilio. (Dylai sgoriau BPE o 3 neu 4 gael eu dilyn gan siartio poced 6 phwynt) | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safonau<br>3.5, 4.2 | Cynhaliwyd cyfarfod:<br>Trafodwyd sgrinio am ganser, datblygwyd polisi'r practis i sicrhau dull gweithredu/cymryd nodiadau cyson.<br>Gorfodi defnyddio taflenni a recordio nodiadau rhoi/deall.<br>Archwiliad o gofnodion i sicrhau bod polisi'r practis ynghylch y siart boced 6 phwynt yn cael ei dilyn. | Leonard Smart | 08.04.16 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 13 | Dylai'r practis drefnu cael gwiriadau recriwtio priodol pan fyddant yn cyflogi staff yn y dyfodol. | Safonau Iechyd a Gofal | Diweddarwyd y polisi recriwtio i gynnwys cyfeiriadau p'un a yw'r darpar aelod staff yn hysbys i ni ai | Leonard Smart | 23.03.16 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Safon 7.1 | peidio. | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Leonard Smart**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd y Practis/Perchennog y Practis**

**Dyddiad:** **23.05.16**